## Canllawiau Camau Creadigol i unigolion

Enw – rhowch eich enw

Cynnig prosiect – rhowch grynodeb o'ch cais a'r rheswm drosto. Yn benodol, beth fydd yr arian yn talu amdano a sut bydd yn eich datblygu'n broffesiynol?

Cefndir a rhwystrau – beth yw'ch cefndir, eich stori a'ch profiadau yn y celfyddydau hyd yn hyn? Mae'n gyfle hefyd i ddisgrifio'r rhwystrau rydych wedi'u hwynebu. Beth sydd wedi eich atal rhag cyrraedd eich targed? Pam nawr yw'r amser ichi gael yr arian? Sut y gall yr arian eich helpu i gyrraedd eich targed?

Manylion y prosiect – rhowch ragor o wybodaeth am eich cais. Manylwch inni allu deall beth byddwch yn ei wneud gyda'r arian. Byddwch yn glir am eich bwriad a'r canlyniadau.

Amserlen – rhowch amserlen fanwl o'ch gweithgarwch gyda dyddiadau ac enwau'r bobl neu sefydliadau y byddwch yn cydweithio â nhw. Rydym yn deall bod pethau'n gallu newid, ond rhowch y mwyaf o wybodaeth sydd gennych.

Sut byddaf yn gwybod os ydw wedi cyflawni fy amcanion? – dyma'ch cyfle i ddangos sut y bydd prosiect llwyddiannus yn cyflawni eich amcanion. Beth yw'r arwyddion penodol y bydd eich cynnig wedi cyflawni eich amcanion neu wedi'ch datblygu? Manylwch. Rydym yn deall nad yw pob twf yn hawdd i'w fesur, ond bydd yn gymorth i'r ddau ohonom os ydych yn glir am sut olwg fydd ar lwyddiant.